



**Wise  
Cymru**

**Wise  
Wales**

**Adroddiad  
Canllawiau  
Partneriaeth ar  
gyfer Addysg  
Bellach**

*Crynodeb Cymru gyfan*



# Cynnwys

<b>Rhagarweiniad</b> _____	3
Cefndir _____	3
Diben yr adroddiad hwn _____	3
<b>Llwybrau ymholi allweddol</b> _____	4
<b>Crynodeb</b> _____	6
Dan Arweiniad y Coleg _____	6
Ymgysylltiad dan Arweiniad y Dysgwr _____	9
Dinasyddiaeth a Chyfoethogi _____	9
Ymrwymiad ac Adnoddau _____	10
Arferion da a rhwystrau cyffredinol _____	10



## Rhagarweiniad

### Cefndir

Ariennir y prosiect Canllawiau Partneriaeth ar gyfer AB gan Lywodraeth Cymru, a'r nod yw helpu creu strwythur cenedlaethol i gynnig cefnogaeth bellach i ddatblygu cyfranogiad y dysgwyr yn sefydliadau Cymru.

Caiff ei weithredu gan brosiect Wise Cymru ar gyfer partneriaeth myfyrwyr, sy'n gweithio o swyddfa Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru. Mae Wise Cymru'n brosiect traws-sector sydd â'r nod o sefydlu partneriaeth ystyrlon rhwng addysgwyr, undebau myfyrwyr a myfyrwyr ledled Cymru o fewn sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Mae'r prosiect yn rhoi sylw penodol i gynorthwyo colegau yng Nghymru â hunan-asesiad o weithgareddau cyfranogiad dysgwyr gyda phecyn cymorth ar gyfer datblygiad ar draws y sector.

Yn 2015/16, prif weithgaredd y prosiect oedd ymweld â phob coleg i gynorthwyo â hunan-asesiad o weithgareddau cyfranogiad dysgwyr, ynghyd â chanolbwyntio ar ganfod meysydd y mae'r coleg am eu datblygu yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r pecyn cymorth a ddefnyddir yn yr ymweliad diagnostig ac ar gyfer yr adroddiad yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Gyfranogiad y Dysgwyr ac adroddiadau yn sgil hyn ers y canllawiau gwreiddiol yn 2010, yn ogystal ag adroddiadau, canllawiau ac argymhellion Estyn ynglŷn â chyfranogiad dysgwyr.

### Diben yr adroddiad hwn

Yn dilyn yr ymweliadau ag unarddeg o golegau ledled Cymru, nod yr adroddiad hwn yw rhoi darlun o natur y bartneriaeth sy'n bodoli yn y sefydliadau hyn. Mae'n grynodeb o'r gwaith a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect hwn, a bydd yn ei ddirwyn i ben.



## Llwybrau ymholi allweddol

Roedd yr hunanasesiad yn canolbwyntio ar bedwar llwybr ymholi allweddol:

### 1) Ymgysylltiad dan arweiniad y coleg

Mae'r maes hwn yn ymwneud ag ymgysylltiad myfyrwyr dan arweiniad colegau i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynnwys ym mhrosesau gwella a llunio polisi'r coleg. Mae hyn yn cynnwys casglu a defnyddio barn myfyrwyr trwy fecanweithiau amrywiol megis arolygon a grwpiau ffocws. Mae'r maes hwn hefyd yn ymwneud â chyhoeddi a defnyddio cwynion, monitro effaith a gweithgareddau'r coleg i gynorthwyo datblygiad undeb myfyrwyr democrataidd, ag adnoddau digonol, a'r defnydd o strategaeth cyfranogiad dysgwyr.

#### Deilliannau a diben datblygu yn y maes hwn

- Caiff myfyrwyr eu cynrychioli gan grwpiau o swyddogion myfyrwyr a etholir yn ddemocrataidd, sydd â digon o adnoddau ar gael iddynt
- Mae'r staff yn gweld y broses o ymgysylltiad gan ddysgwr fel rhan annatod a phwysig o fywyd y Coleg os caiff ei arwain yn effeithiol gan Uwch Dîm Rheoli'r Coleg
- Defnyddir barn a phrofiadau'r myfyrwyr i ddylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygu a gwella profiadau myfyrwyr a'u boddhad.

### 2) Ymgysylltiad dan arweiniad y dysgwr

Ymgysylltiad dan arweiniad y dysgwr yw pan fydd myfyrwyr yn cael y grym i gychwyn, trafod a cheisio barn cyd-fyfyrwyr, gan ganiatáu iddynt fynd ati i lunio eu profiadau dysgu eu hunain, yn ogystal â'u galluogi i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd yn y coleg a thu hwnt.

#### Deilliannau a diben datblygu yn y maes hwn

(I ddysgwyr)

- Cynnydd mewn cymhelliant a hunan-ffeithlonrwydd, gan arwain at gyraeddiadau uwch
- Profiad myfyrwyr mwy cyfoethog a chyflawn i fyfyrwyr oll
- Cyfranogiad gweithredol mewn cynllunio'r cwricwlwm
- Mwy o ymdeimlad o berchenogaeth dros eu deilliannau dysgu
- Datblygiad sgiliau personol, cymdeithasol, trefniadaeth a dysgu gweithredol, y gellir eu defnyddio yn eu gyrfaedd yn y dyfodol
- Gwell perthynas â chyfoedion ac addysgwyr
- Datblygiad sgiliau dinasyddiaeth
- Profiad o arwain mudiad hunan-reolus
- Llwybrau gyrfa at arweinyddiaeth a gwleidyddiaeth



(I ddarparwr)

- Lefelau uwch o gyfranogiad, dargadwedd, cyrhaeddiad a chynnydd
- Llunio cenhedlaeth o ddysgwyr a fydd yn gweithio'n effeithiol gyda staff i wella sicrwydd ansawdd, gan wella ansawdd cyffredinol y dysgu
- Nodi elfennau ar gyfer gwelliannau sefydliadol a mynd ati i weithredu polisiau a mentrau
- Gwneud y coleg yn fwy apelgar i ddarpar fyfyrwyr

### 3) Dinasyddiaeth a Chyfoethogi

Mae gweithgareddau dinasyddiaeth yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth o brosesau democrataidd, a chymryd rhan ynddynt, yn ogystal â chreu newid cadarnhaol, gan eu galluogi i ymgyrchu ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Mae gweithgareddau cyfoethogi yn caniatáu i fyfyrwyr gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau na fyddent fel arfer yn gallu cyfranogi ynddyn nhw'r tu allan i'r coleg. Mae'r maes hwn hefyd yn cynnwys gwasanaethau cymorth bugeiliol sy'n cwmpasu llesiant meddyliol a chorfforol myfyrwyr.

#### Deilliannau a diben datblygu yn y maes hwn

- Mae'r coleg yn ymateb i anghenion corfforol a meddyliol aelodau'r gymuned leol (nid aelodau'r coleg yn unig) ac fe'i hystyrir yn ganolbwynt ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Wrth roi cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bethau o'u cwmpas, mae'r coleg yn cynhyrchu dinasyddion ac aelodau o'r gymuned sy'n weithgar, yn ymgysylltiedig ac yn wybodus.
- Mae'r coleg yn sbardun i ymgysylltiad â'r gymuned, fel rhan annatod o gyfansoddiad y gymuned leol.

### 4) Ymrwymiad ac Adnoddau

Mae'r maes hwn yn ymwneud â lefel yr adnoddau y mae'r coleg yn eu cyfrannu at lais y dysgwr. Gall hyn gyfeirio at adnoddau ariannol, amser a gofod. Mae hyn yn cynnwys colegau, o'r UDRh a'r gorfforaeth i diwtoriaid a staff ategol yn rhoi cymorth i Undebau Myfyrwyr â phob mater sy'n ymwneud â'u strwythur, trefniadaeth, gweinyddiaeth a gweithrediad ariannol.

#### Deilliannau a diben datblygu yn y maes hwn

- Mae Undeb Myfyrwyr sydd â digon o adnoddau yn meithrin diwylliant dan arweiniad myfyrwyr lle mae'r coleg yn cyd-gynhyrchu profiad y coleg gyda myfyrwyr ar draws pob maes (cwricwlwm, cyfoethogi, dysgu ac addysgu a.y.b.)
- Mae gan fyfyrwyr y grym i greu newid yng nghymuned eu coleg ac maent yn teimlo bod ganddynt berchnogaeth dros eu dysgu.
- Mae myfyrwyr yn gallu ymgysylltu'n ehangach mewn cynrychiolaeth a chynyddu proffil y coleg ac undeb y myfyrwyr yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.



## Crynodeb

### Dan Arweiniad y Coleg

Mae gweithgarwch dan arweiniad y coleg mewn sefydliadau AB yn dda ar y cyfan. Mae gan y rhan fwyaf o golegau ryw fath o gynrychiolwyr cwrs, llywodraethwyr, a mecanweithiau adborth. Mae mwy o wybodaeth am y meysydd hyn i'w gweld isod. Ymysg y meysydd sydd angen eu gwella mae sicrhau bod effaith llais y dysgwr yn cael ei fonitro'n ffurfiol, a chynnwys adborth dysgwr mewn cynlluniau datblygu.

### Cynrychiolwyr Cwrs

Mae gan y mwyafrif o golegau systemau cynrychiolwyr cyrsiau o fewn eu strwythurau. Mae hyrwyddo yn tueddu i olygu cyflwyno'r system yn ystod sesiynau tiwtorial, neu yn ystod y cyfnod sefydlu. Mae un coleg yn cynnal Ffair y Glas, a gellir canfod gwybodaeth am y cynrychiolwyr yno. Argymhellir y dylid ethol pob cynrychiolydd yn ddemocrataidd, ond nid yw hyn bob amser yn digwydd. Yn aml iawn, mae'n anghyson hyd yn oed o fewn colegau unigol, gan fod tiwtoriaid yn mynd ati i ddewis eu cynrychiolwyr mewn ffyrdd gwahanol.

Er bod rhai colegau eisoes wedi darparu swydd-ddisgrifiadau ar gyfer y rôl, nid yw eraill wedi gwneud hynny. Mae Wise wedi datblygu adnodd i helpu gyda hyn, sy'n amlinellu manteision swydd-ddisgrifiadau a'r hyn y gallent ei gynnwys.

Mae'r un adnodd hefyd yn ymdrin â hyfforddiant i gynrychiolwyr. Mae gan y mwyafrif o golegau hyfforddiant rhagarweiniol, ond mae Wise yn awgrymu y gall hyfforddiant fod yn arf i ddatblygu cynrychiolwyr gydol y flwyddyn. Gall hyn fod yn ffordd o sicrhau dargadwedd, gan fod hwn yn fater sydd wedi dod i'r amlwg - mae cynrychiolwyr cyrsiau'n tueddu i roi'r gorau i'w rôl ar ôl y Nadolig neu'r Pasg, ond pe bai cyfleoedd hyfforddi ar gael gydol y flwyddyn, byddai'n rhoi cymhelliant iddynt i aros.

Mae cymhellion yn bwysig i ddangos i gynrychiolwyr eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gall hyn fod mor syml â chyflwyno tystysgrifau iddynt i ddangos yr hyn y maent wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae gan Wise dempled i ar gyfer tystysgrifau y gellir eu defnyddio at y diben hwn.

Dylai Cynrychiolwyr hefyd dderbyn cymorth ariannol. Mae pob coleg yn gwneud hyn, drwy dalu costau teithio i ddigwyddiadau (e.e. digwyddiadau hyfforddi UCM/Wise Cymru) ac ad-dalu costau gofal plant. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn cael ei gyfathrebu yn strategaeth Cyfranogiad y Dysgwr, neu nid yw'n cael ei nodi'n benodol.

Mae monitro demograffeg dysgwyr sy'n gynrychiolwyr yn faes sydd angen ei ddatblygu. Mae hyn yn bwysig, oherwydd heb wybod pwy rydych chi eisoes yn ymgysylltu â nhw, ni allwch weithio i gynnwys y rhai sy'n cael eu gadael allan. Mae rhai colegau'n meddu ar y gallu i fonitro demograffeg, ond nid ydynt yn edrych ar y data, tra bod eraill yn monitro presenoldeb yn unig. Er mwyn i'r system gynrychiolwyr fod yn wirioneddol gynrychioliadol, mae hwn yn fater sydd angen ei ddatrys.

Mae cynrychiolwyr wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd mewn rhai colegau, megis cyfarfodydd Cydraddoldeb ac Amrywioldeb, cyfarfodydd y Cyngor neu Dîm y Cwrs. Mae mewnbyn dysgwyr yn eitem sefydlog ar yr agenda yn y rhan fwyaf o achosion, sy'n arfer da, ac mae dysgwyr bob amser yn cael eu hannog i gyfrannu unrhyw syniadau neu bryderon sydd ganddynt. Mewn rhai achosion, mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar adegau pan na all myfyrwyr eu mynychu. Bydd y rhan fwyaf o sefydliadau'n marcio dysgwyr fel "presennol" neu ar "absenoldeb awdurdodedig" yn ystod cyfarfodydd yn hytrach na bod hyn yn tarfu ar eu hawl i Lwfans Cynhaliaeth Dysgu.

### Llywodraethwyr



Mae gan y rhan fwyaf o golegau Fyfirwyr Lywodraethwyr, ac yn aml mae'r Clerc yn rhoi cymorth iddyn nhw. Caiff llywodraethwyr eu hyrwyddo'n wahanol i gynrychiolwyr, gyda'r swyddi'n cael eu hysbysebu ar wefan y coleg, trwy negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol, ac mewn rhai achosion mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyflwyniadau. Mae gan y mwyafrif swydd-ddisgrifiadau ac maent yn gallu rhoi adborth yn swyddogol i strwythurau llais y dysgwyr.

Un maes y gellid ei wella yw cyfnod trosglwyddo'r awenau. Mae rhai colegau'n gwahodd llywodraethwyr sydd newydd gael eu hethol i gysgodir dysgwyr sy'n dod i ddiwedd eu cyfnod yn y rôl yng nghyfarfod olaf y flwyddyn. Mae hon yn ffordd effeithiol o ddangos i'r dysgwyr sy'n dechrau yn y rôl beth y gall ei ddisgwyl, ynghyd â rhoi cyfle iddynt siarad â llywodraethwyr sy'n dod i ddiwedd eu cyfnod a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Gellir hefyd ategu hyn trwy broses fentora ffurfiol.

### **Ymgysylltiad**

Yn yr un modd â monitro demograffeg cynrychiolwyr, mae'n bwysig monitro demograffeg pob dysgwyr. Mae rhai colegau yn gwneud hyn yn effeithiol, a gallant nodi pa ddysgwyr sydd ddim yn cael eu cyrraedd. Yna gellir casglu adborth gan y dysgwyr hyn i ganfod beth ellir ei wneud i'w cefnogi. Mae rhai colegau eisoes wedi llunio strategaethau ar gyfer cyrraedd dysgwyr rhan-amser, sy'n 'anodd eu cyrraedd', megis eu gwahodd i baneli dysgwyr, sicrhau bod ganddynt fynediad i Moodle, ac ymweld â'u dosbarth nhw.

Mae dulliau gwahanol hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol ddysgwyr mewn rhai colegau, megis cael cefnogaeth staff i ddysgwyr Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Nid oes gan rai colegau strategaeth ar gyfer hyn, ond maent yn awyddus i weithio ar y maes penodol hwn. Gellir canfod hyn o ddata a ddarganfyddir os yw demograffeg yn cael ei fonitro, i weld faint o gefnogaeth sydd ei hangen ar wahanol fathau o ddysgwyr.

Mae dysgwyr yn y dyfodol yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn Dyddiau Agored a Nosweithiau Agored, gyda rhai colegau yn defnyddio eu perthynas ag ysgolion cyfagos i gynnal ymweliadau. Mae hon yn ffordd wych o sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llais y dysgwyr pan fyddant yn cyrraedd, trwy ymgysylltu â hwy cyn y cam hwnnw.

### **Arolygon ac Adborth**

Cynhelir arolygon ym mhob coleg, yn amrywio o arolygon boddhad myfyrwyr i werthuso modiwlau. Y rhan bwysicaf o gynnal arolygon yw'r hyn sy'n digwydd â'r canlyniadau, a sut y cânt eu bwydo'n ôl i ddysgwyr.

Mae enghreifftiau o arfer da yn y maes hwn yn cynnwys: cyflwyno'r canlyniadau i'r UDRh ac yna eu bwydo'n ôl i ddysgwyr trwy grwpiau ffocws; defnyddio'r canlyniadau i ddathlu llwyddiannau drwy eu rhannu ar bosteri, trwy gyfryngau cymdeithasol, ac yn ystod sesiynau tiwtorial; hefyd nodi a mynd i'r afael â materion drwy greu cynlluniau gweithredu. Un enghraifft benodol o ddull diddorol ar gyfer adborth oedd creu taflen gyda chrynodeb o ganlyniadau'r arolwg a'i chynnwys gyda thystysgrifau sy'n mynd allan i ddysgwyr pan fyddant yn cwblhau eu cyrsiau. Mae hyn yn effeithiol, ar wahân i ddysgwyr nad ydynt ar gyrsiau sydd wedi'u hachredu.

Rhan allweddol o'r broses hon yw gweithio gyda dysgwyr i gyflawni'r newidiadau a amlygwyd yn yr arolygon a'r cynlluniau gweithredu. Mae hyn yn digwydd mewn rhai colegau drwy'r Cynrychiolwyr neu'r grwpiau ffocws, ond anaml iawn y mae'n rhan o gynllun gweithredu ffurfiol, ac weithiau mae dysgwyr yn cael eu hysbysu ynglŷn â newidiadau yn hytrach na bod yn rhan annatod o wneud y newid. Er mwyn sefydlu diwylliant o bartneriaeth ystyrlon, dylai dysgwyr fod yn rhan o helpu i ganfod datrysiadau i'r materion a godir yn sgil canlyniadau'r arolwg.





Gellir casglu adborth mewn gwahanol ffyrdd, megis blwch awgrymiadau, grwpiau ffocws, drwy wefan y sefydliad, neu e-byst uniongyrchol. Enghraifft arall yw teithiau dysgu, a ddefnyddir gan nifer o sefydliadau. Mae hyn yn golygu bod staff (ac weithiau dysgwyr) yn cerdded o gwmpas y coleg ac yn gofyn am adborth personol gan ddysgwyr wyneb yn wyneb.

Mae'r hyn sy'n digwydd i ganlyniadau'r mathau amgen hyn o fecanweithiau adborth fel arfer yn rhan o strwythur llai ffurfiol. Mae hyn yn golygu bod darparu dysgwyr ag adborth yn wendid yn achos llawer o golegau. Mae rhai'n defnyddio dulliau tebyg i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer darparu adborth o arolygon, megis rhannu'r effaith drwy gyfryngau cymdeithasol neu sgriniau teledu'r campws, neu adrodd yn ôl mewn sesiynau tiwtorial. Lle mae'n rhan o Strategaeth, mae yna nifer o gyfleoedd i roi adborth i ddysgwyr; mae hyn yn rhywbeth y buasem yn ei argymhell yn gryf.

Mae gan y rhan fwyaf o golegau ryw fath o fecanwaith ar gyfer dadansoddi ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau ymgynghori a chyfranogiad dysgwyr. Mae hyn yn amrywio o sicrhau cyfranogiad y Tîm Ansawdd i'r UDRh. Edrychir ar dueddiadau o flwyddyn i flwyddyn, a chânt eu defnyddio fel rhan o'r gweithdrefnau meincnodi mewn rhai achosion. Mae'r ymgyrch 'Dywedoch Chi, Gwnaethon Ni' yn aml yn cael ei gweithredu fel ffordd o fonitro llwyddiannau a'r hyn a gyflawnwyd o ganlyniad i gyfranogiad dysgwyr. Mae defnyddio adborth dysgwyr i gyfrannu at hunan-asesu a datblygu ansawdd yn wendid, fodd bynnag, gan mai anaml y mae'n digwydd o gwbl.

Serch hynny, mae adborth wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol mewn cyswllt â chyfraddau dargadwedd, ac mewn rhai colegau mae hyd yn oed wedi arwain at ddileu rhai cyrsiau. Gall ddarparu'r arwyddion mwyaf arwyddocaol o ran deilliannau dysgwyr, gan roi adborth ar ansawdd cyrsiau ac addysgu.

Yn gyffredinol, mae'r mecanweithiau adborth hyn yn cael eu hyrwyddo'n dda iawn. Caiff hyn yn aml ei gynnwys yn ystod y cyfnod sefydlu, ac yn ddiweddarach mewn sesiynau tiwtorial, mewn llawlyfr / pecyn cyflwyno, ar gyfryngau cymdeithasol, neu ar y wefan. Nid yw mathau eraill o gyfathrebu mor gryf, oherwydd diffyg strategaethau cyfathrebu ffurfiol yn y rhan fwyaf o sefydliadau.

### **Hyrwyddo ac effaith Llais y Dysgwr**

Ychydig iawn o golegau sydd â strategaeth gyfathrebu, a all esbonio'r diffyg strwythurau effeithiol ar gyfer darparu adborth i fyfyrwyr am ba newidiadau a wnaed yn sgil eu mewnbwn. Mae yna hefyd ddiffyg hyfforddiant ar gyfer staff ar bwysigrwydd llais y dysgwr a'r hyn a ddisgwylir ganddynt o ran darparu adborth. Mae rhai colegau'n cynnig calendrau ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd pwysig, oes nid oes gan eraill systemau ar gyfer hyn, neu mae ar gael ar gyfer staff yn unig.

Mae effaith Llais y Dysgwr i'w weld ar draws sawl agwedd o'r colegau. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwelliannau o ran mynd i'r afael â materion ar gampysau newydd; mwy o gydnabyddiaeth i lais y dysgwr; a diwygio TG o ganlyniad uniongyrchol i adborth gan ddysgwyr. Mae hyn o safbwynt staff, fodd bynnag, ac ychydig iawn o ddata sy'n bodoli ynghylch yr hyn y mae dysgwyr yn ei feddwl ynglŷn ag effaith llais y dysgwr.

Mae monitro unrhyw effeithiau hefyd yn wendid, gan mai anaml mae hyn yn digwydd. Mewn rhai achosion, gosodir amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol, ond yn y rhan fwyaf nid oes unrhyw broses mapio ffurfiol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos cynrychiolwyr; anaml y cânt eu monitro am yr effaith y mae bod yn gynrychiolydd yn ei gael arnynt, ar y coleg, ac ar ddysgwyr eraill. Mae Wise wedi creu adnodd i helpu gyda hyn.

### **Cwynion**

Mae gan bob coleg strwythur ffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae gweithdrefnau mewn lle sy'n cael eu monitro'n dda ar y cyfan, er eu bod yn defnyddio gwahanol ddulliau. Fel rheol,





maent yn dadansoddi cwynion er mwyn nodi unrhyw themâu cyffredinol, â'r nod o gyfrannu at gynlluniau gweithredu blynyddol.

Mae amrywiaeth i'w weld mewn lefelau hyfforddiant ar draws sefydliadau - does fawr ddim hyfforddiant ar gael ar gyfer dysgwyr na staff mewn rhai colegau, tra bod eraill yn cynnig rhywfaint o hyfforddiant (er enghraifft, Rheolwyr a Chynrychiolwyr). Dylai ffurfioli hyfforddiant yn y maes hwn gryfhau llais y dysgwr, gan ei fod yn rhoi grym i fyfyrwyr gael llais a pheidio â bod ofn tynnu sylw at unrhyw bryderon.

Mae lefel cyfranogiad Cynrychiolwyr yn y weithdrefn gwynion (er enghraifft, ar baneli apêl) yn amrywiol. Mewn rhai colegau nid oes ganddyn nhw unrhyw gyfranogiad. Mewn eraill, maent yn cael hyfforddiant sy'n ymdrin â'r weithdrefn gwynion ac maent yn rhan o'r polisi.

### **Ymgysylltiad dan Arweiniad y Dysgwr**

Mae gan y rhan fwyaf o golegau undeb / cymdeithas myfyrwyr ffurfiol, neu maent yn agored i'r egwyddor o ddatblygu un. Mae gan y rheiny sydd ag UM eisoes gyfansoddiad a swyddogion / gwirfoddolwyr etholedig, ond nid oes ganddyn nhw strategaeth ar wahân ar gyfer yr undeb.

Nid oes cydberthynas rhwng y colegau hynny sydd ag UMau ffurfiol a'r rhai sydd â chymdeithasau a digwyddiadau dan arweiniad myfyrwyr. Mae gan rai colegau sydd heb Undeb Myfyrwyr amrywiaeth dda o gymdeithasau ar gael i'w dysgwyr, ac mae eraill sydd ag UM heb unrhyw ddigwyddiadau dan arweiniad dysgwyr. Serch hynny, nid yw'n glir a yw'r holl gymdeithasau yn cael eu harwain gan ddysgwyr, gan y gall rhai ohonynt fod wedi'u hysgogi gan y staff.

Mae gan swyddogion etholedig swydd-ddisgrifiadau ac mewn rhai colegau gallant gadeirio cyfarfodydd. Maent hefyd yn aml yn gallu cyfrannu at yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn yr agenda, er na roddi annibyniaeth lawn iddynt yn y maes hwn. Mewn colegau lle nad oes UM ffurfiol, mae'n llai tebygol bod y lefel hon o bartneriaeth yn digwydd, ac weithiau nid yw dysgwyr yn ymwneud â'r prosesau hyn o gwbl.

Cynhelir ystod o brosiectau partneriaeth rhwng dysgwyr a staff ar draws y sector. Er enghraifft, mae dysgwyr yn ymwneud â rhedeg ffeiriau ar adeg y Nadolig a'r Pasg, maen nhw'n arwain hyfforddiant staff, ac yn cyfranogi mewn ymgynghoriad ar gyfer cynllun strategol y sefydliad.

### **Dinasyddiaeth a Chyfoethogi**

#### **Dinasyddiaeth**

Mae nifer fechan o golegau yn annog eu dysgwyr i gymryd rhan mewn cynghorau ieuenctid lleol. Weithiau mae'r dysgwyr yn cymryd rhan ar eu liwt eu hunain.

Mae hyn yn debyg i beth sy'n digwydd yn achos ymgyrchoedd. Mae rhai yn weithgareddau dan arweiniad y dysgwr er mwyn codi arian at elusen, er enghraifft, tra bod eraill yn cael eu harwain gan y coleg a dim ond cynnwys dysgwyr lle bo hynny'n briodol. Mewn rhai achosion, nid oes diddordeb ym mhrosesau'r UM, felly nid yw ymgyrchoedd ar y pwnc hwnnw yn apelio at y dysgwyr, ac o'r herwydd nid ydynt yn digwydd. Lle mae ymgyrchoedd yn llwyddiannus, maent yn aml yn wleidyddol ac yn adweithiol yn hytrach na bod yn seiliedig ar bolisiau. Ni chaiff dysgwyr byth eu hatal rhag ymgyrchu, er bod rhai rhwystrau megis cyllido a monitro siaradwyr gwadd.

#### **Cyfoethogi**

Mae gweithgareddau cyfoethogi fel arfer yn digwydd ar brynhawn Mercher, pan nad oes darlithoedd ar yr amserlen. Nid yw hyn wedi parhau mewn rhai achosion; mewn eraill, mae gweithgareddau'n cael eu cynnal yn ystod amser cinio.



Mae cyfleoedd dysgu ac addysgu hefyd yn digwydd ac fel arfer maent wedi'u cynnwys yn strwythurau sefydledig y coleg, megis tiwtorialau. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys y Fagloriaeth Gymreig, gwersi dinasyddiaeth, a chlybiau megis y clwb dadlau. Hefyd, mae llawer o gydweithrediad yn digwydd â phartneriaid allanol, naill ai i wneud cyflwyniadau ar bynciau megis iechyd meddwl ac yfed cyfrifol, neu grwpiau cymunedol ac elusennau lleol.

Mae yna ddulliau hyrwyddo tebyg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi ag sydd ar gyfer agweddau eraill o lais y dysgwr - cyfryngau cymdeithasol, tiwtoriaid, posteri, gwefan a.y.b. Mae gan golegau sydd â strategaethau cyfathrebu strwythurau hyrwyddo mwy datblygedig, gan gynnwys brandiau penodol ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi.

Mae monitro'n digwydd yn y rhan fwyaf o golegau, serch hynny, dim ond ar lefel presenoldeb. Nid yw demograffeg yn cael ei fonitro mewn unrhyw sefydliad, sydd eisoes wedi'i nodi fel gwendid mewn meysydd eraill yn ogystal. Mae hwn yn rhywbeth y gellir ei ddatblygu, a dylai fod o fantais mewn nifer o feysydd gwahanol ar draws pob agwedd o lais y dysgwr.

Gosodir gwerth ar iechyd corfforol a meddyliol dysgwyr o fewn colegau, oherwydd mae gan bob sefydliad naill ai gynghorydd, aelod staff neu swyddog llesiant. Mae gan bob coleg hefyd system ar gyfer cyfeirio unigolion at wasanaethau proffesiynol.

### **Ymrwymiad ac Adnoddau**

Mae yna lefelau amrywiol o gefnogaeth o ran cyllidebu ledled Cymru. Mae gan golegau sy'n darparu cyllideb ar gyfer llais y dysgwr rai o'r strwythurau mwyaf datblygedig mewn lle, tra bod y rheiny sydd heb fawr ddim arian yn ei chael yn anodd oherwydd diffyg staffio ac adnoddau penodol. Er enghraifft, mae gan golegau sydd â rhywfaint o arian ar gael iddynt swyddfa ar gyfer staff a manau cymdeithasol ar gyfer dysgwyr yn y rhan fwyaf o achosion. Mae llawer o golegau'n dibynnu'n rhannol ar gardiau UCM i ariannu gweithgareddau'r UM.

Ychydig iawn o golegau sydd â staff llawn-amser sy'n ymwneud yn benodol â gweithgareddau llais y dysgwr. Fel arfer, nid oes unrhyw oriau penodol ar gyfer y gwaith hwn ac mae'n rhan o rôl aelodau staff eraill. Lle mae'r rhaniad hwn yn digwydd, ni chaiff ei ffurfioli fel arfer, gan ei gwneud hi'n heriol i'w fonitro.

Lle disgwylir i staff ymwneud â gweithgareddau llais y dysgwr, fe'u hyfforddir bob amser, ac maent yn rhan o Rwydwaith Ymarferwyr Llais y Dysgwr.

### **Arferion da a rhwystrau cyffredinol**

Hefyd gofynnwyd i golegau pa agwedd o lais y dysgwr yr oeddent falchaf ohoni, a pha rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu.

#### **Arferion Da**

Dyma rai o'r pethau y mae colegau'n credu eu bod yn rhagori ynddyn nhw: strwythurau a chymorth ar gyfer cynrychiolwyr; gweld newidiadau'n cael eu gwneud ar y campws y sgil llais y dysgwr; gosod dysgwyr ar lwybrau gyrfa; trin cwynion yn well; mwy o ymroddiad gan staff i lais y dysgwr; a diwylliant ac ethos gwell o gwmpas llais y dysgwr, trwy ei osod wrth galon popeth y mae'r coleg yn ei wneud.

#### **Rhwysterau**

Mae colegau yn dal i wynebu rhwystrau ac mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys: sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan yn y penderfyniadau mwy; monitro ymgysylltiad yn ffurfiol; ffurfioli strwythurau staff; ymgysylltu â dysgwyr yn y lle cyntaf; cyllid; amseru digwyddiadau o fewn calendr y myfyrwyr; diffyg staff; a cheisio ymgorffori llais y dysgwr o fewn strwythurau sylfaenol y coleg, yn hytrach na'i fod yn cael ei ystyried fel 'ychwanegiad'.